OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2662

## Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) 2001

**Enwi, cychwyn, cymhwyso ac ymestyn diffiniadau**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio)(Cymru) 2001 a daw i rym ar 21 Gorffennaf 2001.

(2) Bydd y Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) At ddibenion Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 o'i chymhwyso at y Gorchymyn hwn—

(a) estynnir y diffiniadau o "*animals*" ("anifeiliaid") yn is-adran (1) o adran 87 o'r Ddeddf honno i gynnwys pob mamal ac eithrio dyn ;

(b) estynnir y diffiniad o "*poultry*" ("dofednod") yn is-adran (4) o adran 87 o'r Ddeddf honno i gynnwys pob aderyn;

(c) estynnir y diffiniadau o "*disease*" ("clefyd") yn is-adran (1) o adran 88 o'r Ddeddf honno i gynnwys pob clefyd anifeiliaid; ac

(ch) estynnir y diffiniad o "*disease*" ("clefyd") yn is-adran (3) o adran 88 o'r Ddeddf honno er mwyn cynnwys pob clefyd dofednod.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall—

mae "anifail" ("*animal*") yn cynnwys aderyn;

mae "cyfrwng cludo" ("*means of transport*") yn cynnwys ei ffitiadau, ei rannau datodadwy ac unrhyw gynwysyddion (p'un a ydynt yn ddatodadwy neu beidio) a ddefnyddir gydag ef;

mae i "Cymru" yr un ystyr ag yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

(2) Yn y Gorchymyn hwn, mae unrhyw gyfeiriad at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

(3) Rhaid i unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan y Gorchymyn hwn fod yn ysgrifenedig. Gellir ei wneud yn ddarostyngedig i amodau a gellir ei ddiwygio, ei atal neu ei ddiddymu mewn ysgrifen unrhyw bryd.

**Glanhau a diheintio mewn perthynas â chludo anifeiliaid carnog a dofednod**

**3.**—(1) Bydd yr erthygl hon yn gymwys mewn perthynas â glanhau a diheintio'r cyfrwng cludo a ddefnyddir ar gyfer yr anifeiliaid canlynol (heblaw o dan yr amgylchiadau a bennir yn Atodlen 2)—

(a) anifeiliaid carnog;

(b) colomennod rasio; ac

(**1**) 1998. p.38.

(c) y canlynol os cânt eu magu neu eu cadw mewn caethiwed ar gyfer bridio, cynhyrchu cig neu wyau i'w bwyta neu er mwyn ailstocio cyflenwadau adar hela: ffowls domestig, tyrcwn, gwyddau, hwyaid, ieir gini, soflieir, colomennod, ffesantod, petris ac adar di-gêl.

(2) Os oes cyfrwng cludo wedi'i ddefnyddio i gludo unrhyw anifail neu unrhyw beth a allai arwain at drosglwyddo clefyd sy'n effeithio ar anifeiliaid, rhaid i ddefnyddiwr y cyfrwng cludo sicrhau, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a dim mwy na 24 awr ar ôl cwblhau'r daith, fod y cyfrwng cludo hwnnw a'i offer yn cael eu glanhau a'u diheintio yn unol ag Atodlen 1, neu, os yw'n briodol, yn cael eu dinistrio.

(3) Ni chaiff neb ddefnyddio, na pheri na chaniatáu defnyddio unrhyw gyfrwng cludo i gludo unrhyw anifail oni bai bod y cyfrwng cludo a'i offer wedi'u glanhau a'u diheintio yn unol ag Atodlen 1 ers iddo gael ei ddefnyddio ddiwethaf i gludo unrhyw anifail neu unrhyw beth a allai arwain at drosglwyddo clefyd sy'n effeithio ar anifeiliaid.

(4) Os yw cyfrwng cludo wedi'i faeddu fel y gallai beri risg o drosglwyddo clefyd ers ei lanhau a'i ddiheintio ddiwethaf, ni chaiff neb lwytho, na pheri na chaniatáu llwytho unrhyw anifail i mewn i'r cyfrwng cludo oni bai bod y cyfrwng cludo hwnnw wedi'i lanhau a'i ddiheintio eto yn unol â pharagraffau 3 a 4 o Atodlen 1.

(5) Rhaid i unrhyw berson sy'n cludo unrhyw anifail symud ymaith unrhyw anifeiliaid meirw, gwelltach budr a charthion o'r cyfrwng cludo cyn gynted â phosibl.

**Glanhau a diheintio mewn perthynas â chludo mamaliaid ac adar eraill, ac anifeiliaid carnog a dofednod o dan amgylchiadau penodol**

**4.**—(1) Bydd yr erthygl hon yn gymwys mewn perthynas â chludo—

(a) pob mamal ac eithrio dyn heblaw anifeiliaid carnog;

(b) pob aderyn nad yw wedi'i gynnwys yn erthygl 3; ac

(c) anifeiliaid a bennir yn erthygl 3 o dan yr amgylchiadau a bennir yn Atodlen 2;

ond ni fydd yn gymwys yn achos—

(i) cludiant nad yw o natur fasnachol;

(ii) anifail unigol y mae person, sy'n gyfrifol am yr anifail tra bydd yn cael ei gludo, yn mynd gydag ef wrth iddo gael ei gludo;

(iii) cludo anifeiliaid anwes sy'n mynd gyda'u perchennog ar daith breifat.

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n cludo anifeiliaid, neu'n peri neu'n caniatáu iddynt gael eu cludo pan fydd yr erthygl hon yn gymwys sicrhau—

(a) eu bod yn cael eu llwytho ar gyfrwng cludo sydd wedi'i lanhau, a phan fydd angen, wedi'i ddiheintio yn unol ag Atodlen 1; a

(b) bod anifeiliaid meirw, sarn budr a charthion yn cael eu symud ymaith cyn gynted â phosibl.

**Gwaredu deunydd ar ôl glanhau**

**5.** Rhaid i bopeth a dynnir o'r cyfrwng cludo yn unol ag Atodlen 1—

(a) cael eu dinistrio;

(b) cael eu trin fel bod y risg o drosglwyddo clefyd yn cael ei ddileu; neu

(c) cael eu gwaredu fel na fydd anifeiliaid yn gallu mynd atynt.

**Pwerau arolygwyr, etc.**

**6.**—(1) Pan fydd arolygydd wedi'i fodloni bod cyfrwng cludo, neu unrhyw offer sy'n cael ei gario gyda'r cyfrwng cludo, naill ai—

(a) heb gael eu glanhau a'u diheintio yn unol â'r Gorchymyn hwn; neu

(b) bod angen eu glanhau a'u diheintio am y gallai beri risg o drosglwyddo clefyd,

caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson y mae'n ymddangos i'r arolygydd ei fod yn gyfrifol am y cyfrwng cludo neu'r offer.

(2) Gall hysbysiad a gyflwynir o dan y paragraff blaenorol—

(a) gwahardd defnyddio'r cyfrwng cludo neu'r offer nes iddynt gael eu glanhau a'u diheintio;

(b) gwahardd cadw anifeiliaid ar y cyfrwng cludo nes iddo gael ei lanhau a'i ddiheintio;

(c) ei gwneud yn ofynnol i'r person y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo lanhau a diheintio'r cyfrwng cludo neu'r offer o fewn unrhyw gyfnod a bennir yn yr hysbysiad; neu

(ch) ei gwneud yn ofynnol i'r person y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo waredu'r holl borthiant yr oedd yr anifeiliaid yn gallu mynd ato, yr holl welltach, yr holl garthion a'r holl ddeunyddiau eraill sy'n tarddu o anifeiliaid yn y ffordd a nodir yn yr hysbysiad.

(3) Os cyflwynir hysbysiad o dan y paragraff blaenorol, rhaid cyflawni'r gwaith glanhau a diheintio yn unol ag Atodlen 1 oni bai bod yr hysbysiad yn pennu dull gwahanol o lanhau a diheintio.

(4) Caiff arolygydd gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo gyflawni gwaith glanhau a diheintio yn unol ag erthyglau 3 neu 4 yn mynnu bod y person hwnnw yn ei lanhau a'i ddiheintio fel a bennir yn yr hysbysiad yn lle gwneud hynny yn unol ag Atodlen 1 os yw'r arolygydd wedi'i fodloni bod hynny'n angenrheidiol at ddibenion iechyd anifeiliaid.

(5) Pan na fydd person yn cydymffurfio â hysbysiad a gyflwynwyd o dan yr erthygl hon, caiff arolygydd drefnu y cydymffurfir â darpariaethau'r hysbysiad ar draul y person y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo .

**Gorfodi**

**7.** Gorfodir y Gorchymyn hwn gan yr awdurdod lleol.

**Diddymu a diwygio**

**8.**—(1) Mae'r Gorchmynion a nodir yng ngholofn gyntaf y tabl yn Rhan I o Atodlen 3 yn cael eu diddymu i'r graddau y maent yn gymwys yng Nghymru ac i'r graddau a nodir yn nhrydedd golofn y tabl hwnnw.

(2) Mae'r Gorchymyn yn Rhan II o Atodlen 3 yn cael ei ddiwygio yn unol â'r Rhan honno i'r graddau y mae'n gymwys yng Nghymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*J. E. Randerson*
20 Gorffennaf 2001 — Ysgrifennydd Cynulliad

*Alun Michael*
20 Gorffennaf 2001 — Gweinidog Gwladol

(**2**) 1998 p.38.